| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adrodd i: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **23 MEDI 2025** |
| Pwnc: | **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI – CHWARTER 1 2025/26** |
| Deilydd Portffolio: | **ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID A THAI** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151**<br>(ESTYNIAD 2601) |
| Awdur yr adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **ŠÁRKA TIMAROVÁ**<br><br>SarkaTimarova@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/au/au'r rheswm/au.**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-

**(i)** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 1 2025/26.
**(ii)** Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2025/26.

**2. Cefndir**

**(i)** Gosodwyd y gyllideb refeniw gyda gwarged a gynlluniwyd o £6,291k.

**(ii)** Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2025/26 yw £23,029k. Mae cyllideb cyllid grant gwerth £6,990k yn gostwng y gyllideb net i £16,038k.

**(iii)** Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £9,747k. Bydd £6,820k yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT, a bydd y balans o £2,927k yn cael ei gyllido drwy fenthyca allanol.

**(iv)** Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo cyllid o'i gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol ac ni ellir defnyddio'r Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 30 Mehefin 2025.

**4. Trosolwg**

**4.1** Mae gwarged / diffyg refeniw y CRT ar ddiwedd chwarter 1 yn dangos tanwariant o £177k o'i gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Y rhagolwg ar ddiwedd y flwyddyn yw tanwariant o £189k. Ceir rhagor o fanylion yn adrannau 5 i 8 isod ac yn Atodiad A.

**4.2** Rhagwelir y bydd gwariant cyfalaf yn unol â'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, fel yr eglurir yn adran 9 isod ac yn Atodiadau B a C. Disgwylir i incwm grant fod yn unol â'r gyllideb.

**4.3** Mae'r diffyg a ragwelir (cyfuniad o refeniw a chyfalaf) nawr yn £9,558k, £189k yn llai na'r gyllideb.

## 5. Incwm

**5.1** Ar ddiwedd chwarter 1, roedd yr incwm £129k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Gellir priodoli'r diffyg o £132k mewn incwm rhenti yn bennaf oherwydd nifer uwch na'r disgwyl o eiddo gwag o'i gymharu â'r gyllideb ac yn rhannol oherwydd y gwahaniaeth amseru wrth drosglwyddo eiddo newydd i'r stoc tai rhent. Mae disgwyl y bydd rhai o'r materion amseru'n gwastatáu wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, rhagwelir y bydd incwm £10k yn uwch na'r gyllideb oherwydd rhywfaint o incwm tir a ffioedd arbennig a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn.

## 6. Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw

**6.1** Ar ddiwedd chwarter 1, roedd gorwariant o £351k ar waith trwsio a chynnal a chadw. Mae hyn yn bennaf oherwydd gwariant ar anheddau gwag tra bod newid o ran tenantiaid. Yn ystod y flwyddyn, bydd rhai o'r costau hyn yn cael eu hailasesu a'u symud yn erbyn cyllideb gyfalaf SATC. Oherwydd natur gwaith atgyweirio, sy'n cael ei wneud pan fydd yr angen yn codi, rydym, ar hyn o bryd, yn rhagweld y bydd y gyllideb yn cael ei chyflawni ar ddiwedd y flwyddyn.

**6.2** Mae gwasanaethau a rennir a rhai yr ailgodir tâl amdanynt, sy'n cynnwys gwariant ar ardaloedd cymunedol a rennir, torri gwair ac ati, yn dangos tanwariant o £35k. Ar hyn o bryd, mae cymysgedd o wahaniaethau o ran amseru a ddylai wastatáu yn ystod y flwyddyn. Un amrywiad amlwg yw gwariant uchel ar drwsio mynedfa drysau, a rhagwelir y bydd hyn yn ein harwain at orwariant o £10k erbyn diwedd y flwyddyn.

**6.3** Mae gwariant ar staff gweithredol £95k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 1, sy'n deillio o swyddi gwag heb eu llenwi a dyfarniad cyflog nad yw wedi'i brosesu eto. Mae gorbenion a gwariant arall £6k yn is na'r gyllideb, sy'n bennaf oherwydd costau cludiant is sy'n gysylltiedig â swyddi gwag heb eu llenwi.

## 7. Gwariant Goruchwylio a Rheoli

**7.1** Ar ddiwedd chwarter 1, roedd gwariant goruchwylio a rheoli £162k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r prif amrywiadau yn ymwneud â gwahaniaeth amseru rhwng y gyllideb a'r gwariant gwirioneddol ar gyfer y dreth gyngor, ac mewn perthynas â'r dyfarniadau cyflog na chytunwyd arnynt o fewn y chwarter, swyddi gwag heb eu llenwi a chostau pensiwn. Dylai mwyafrif y gwahaniaethau amseru wastatáu yn ystod y flwyddyn. Rydym yn rhagweld y bydd swyddi gwag heb eu llenwi ac addasiadau cyfraniadau pensiwn mawr yn arwain at danwariant o tua £120k yn erbyn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

## 8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn

**8.1** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sy'n ffurfio rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ar ddiwedd chwarter 1, rydym yn rhagweld cyllideb gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn.

## 9. Gwariant Cyfalaf

**9.1** Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2025/26 yw £23,029k, y gyllideb cyllid grant yw £6,990k.

Mae'r cyllid grant sy’n cael ei ragweld wedi'i grynhoi isod:-

| Ffynhonnell | Rhagolwg Chwarter 1 £ |
|---|---|
| Gronfa Tai â Gofal (HFC) | 568,648 |
| ICF | 867,637 |
| Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol | 423,865 |
| Grant Tai Cymdeithasol (SHG) | 1,235,012 |
| Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (MRA) | 2,690,000 |
| Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2025/26 | 1,205,221 |
| | |
| **Cyfanswm y Cyllid Grant** | **6,990,383** |

**9.1** Gwariant SATC – Mae'r gyllideb o £4.983m yn neilltuo’r swm o £1.483m i fynd i'r afael â gwaith SATC a wrthodwyd gan denantiaid ac elfennau cyfalaf sy’n cael eu huwchraddio pan fydd tenantiaeth yn newid dwylo, megis gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd ac ail-weirio systemau wrth iddynt ddod i ddiwedd eu hoes. Mae'r gyllideb yn neilltuo £3.5m tuag at Flwyddyn 2 o raglen 5 mlynedd ar gyfer ailosod ceginau sydd bellach yn fwy na 15 mlwydd oed. Yn ôl Gwasanaethau Tai, mae’r ddau gontractwr a benodwyd wedi parhau i berfformio'n dda yn ystod chwarter 1, gyda gwariant o £1.475m. Yn ôl yr angen, mae'r ddau gontractwr hefyd yn adnewyddu ceginau a gwaith SATC cysylltiedig pan fo newid mewn tenantiaeth.

**9.2** Gwariant Risg Tân – Bwriedir gwario'r gyllideb o £500k ar sicrhau cydymffurfiaeth â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2005. Bydd y mesurau arfaethedig yn cynnwys yn bennaf ailosod drysau tân 1 awr (FD60) fflatiau ac uwchraddio systemau larymau tân mewn blociau o fflatiau. Cafodd y contract newid drysau tân ei dendro a'i ddyfarnu yn ystod 2024/25, a’r gwariant ar ddiwedd chwarter 1 oedd £135k.

**9.3** Gwariant Addasiadau'r Sector Cyhoeddus – Mae’r Gwasanaethau Tai yn disgwyl i’r galw am addasiadau canolig a mawr barhau’n gyson a bydd y gyllideb o £500k a neilltuwyd yn cyllido gwaith megis gosod lifftiau grisiau, cawodydd â mynediad gwastad, rampiau ac estyniadau. Y gwariant gwirioneddol ar ddiwedd chwarter 1 oedd £87k, gyda £83k arall wedi’i ymrwymo a’i gadarnhau.

**9.4** Gwariant Perfformiad Ynni - Fel yr adroddwyd yn flaenorol, dechreuodd Gwasanaethau Tai weithio ar raglen 5 mlynedd ar gyfer darparu mesurau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio yn y tymor hwy yn ystod chwarter 4 2024/25. Parhaodd y contract, sy'n cynnwys yn bennaf gosod systemau Solar PV a Storio Batris ar draws y stoc dai, yn unol â’r disgwyl yn ystod chwarter 1, ac mae'r Gwasanaethau Tai wedi neilltuo cyllideb o £3.3m ar gyfer y gwelliannau effeithlonrwydd ynni hyn yn ystod 2025/26. Bydd y rhaglen yn parhau i ganolbwyntio ar eiddo nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif rwydwaith nwy drwy gydol 2025/26.

**9.5** Gwariant Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd – Cyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer gwaith Cynnal a Chadw traddodiadol a gynlluniwyd yw £3.0m, sy’n cynnwys ymrwymiad a ddygwyd ymlaen ar gyfer cynlluniau a ddyfarnwyd ac a ddechreuwyd ar y safle yn ystod 2024/25. Mae'r ymrwymiad a ddygwyd ymlaen yn cynnwys yn bennaf parhau â'r gwaith yn Tan y Bryn, Y Fali a Chilgant Morrison, Caergybi, a chwblhawyd y Gwaith Ymarferol yn ystod chwarter 1. Mae’r Gwasanaethau Tai’n bwriadu tendro Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd arall sy'n cynnwys 20 eiddo mewn gwahanol leoliadau yn ystod chwarter 2, ac mae'n disgwyl i’r gyllideb ar gyfer 2025/26 gael ei hymrwymo’n llawn unwaith bydd y gontract yn cael ei ddyfarnu’n llwyddiannus. Y gwariant a wnaed yn ystod chwarter 1 oedd £394k, ac ymrwymwyd a chadarnhawyd swm pellach o £1,039k.

**9.6** Gwariant Gwaith Amgylcheddol – Mae cyfanswm cyllideb o £500k wedi'i neilltuo tuag at welliannau amgylcheddol yn 2025/26. Bydd cyfran o'r gyllideb hon yn cael ei defnyddio i barhau gyda'r gwaith rhaglenedig o ddymchwel rhai garejys yn Llangefni, Moelfre ac Amlwch nad yw’n ymarferol eu cadw. Mae'r Gwasanaethau Tai yn disgwyl y bydd tendrau’n cael eu hasesu a chontract yn cael ei ddyfarnu yn ystod chwarter 2. Yn ogystal â hyn, bydd y gyllideb yn cael ei defnyddio ar gyfer gwneud gwelliannau wedi’u targedu mewn ystadau tai ac uwchraddio gwaith trin y mae’r Gwasanaethau Tai’n berchen arnynt ac yn eu gweithredu.

**9.7** Gwariant Contract Gwres Canolog - Yn ystod chwarter 1, cwblhawyd y Contract Gwaith Ymarferol (CHC226) ar gyfer adnewyddu boeleri â ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r Gwasanaethau Tai wedi dyrannu cyllideb gyfalaf o £200k ar gyfer 2025/26, a’r gwariant ar ddiwedd chwarter 1 oedd £118k. Nid oes unrhyw gynlluniau i ddyfarnu unrhyw gontractau mawr pellach yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**9.8** Adnewyddu'r Fflyd – Mae'r gyllideb yn dyrannu’r swm o £650k ar gyfer rhaglen dreigl o adnewyddu fflyd cerbydau'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau, yn bennaf y stoc faniau a ddefnyddir gan weithwyr. Ymrwymwyd cyfanswm o £357k ar ddiwedd chwarter 1, ac mae disgwyl y bydd 10 cerbyd newydd ar gael yn ystod chwarter 2.

**9.9** Prynu Eiddo Presennol a Datblygu eiddo newydd - Mae cyllideb o £9,396k wedi’i ddyrannu i weithgareddau sy'n cynyddu stoc y CRT y gellir eu rhentu:-

- **Prosiectau wedi'u Cwblhau neu sydd ar fin Cwblhau**
  Yn Ffordd Garreg Lwyd yng Nghaergybi, ychwanegwyd 8 uned at stoc tai rhent cymdeithasol y CRT, a chyn hir ym Mhlas Alltran yng Nghaergybi bydd 4 uned. Mae gwaith datblygu newydd yng Nghae Braenar yng Nghaergybi a Stad y Bryn yn Llanfaethlu yn mynd rhagddo'n dda, yn ogystal â’r datblygiad yn Safle Hen Ysgol Niwbwrch. Dylai'r prosiectau hyn ychwanegu 23, 9 a 14 uned yn y drefn honno at y stoc y gellir ei osod yn ystod 2025/26.

- **Datblygiadau Eraill**
  Mae dau dŷ newydd yn cael eu datblygu ym Mharc y Coed gan ddatblygwr allanol.

- **Cydweithio â'r Gwasanaethau Cymdeithasol**
  Mae sawl prosiect gweithredol lle mae’r CRT yn cydweithio ag adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. Mae oedi o ran datblygu’r cyfleuster gofal ychwanegol ym Mhorthaethwy, ond mae disgwyl i rywfaint o waith ddigwydd yn 2025/26. Yn ogystal â hyn, prynwyd tri eiddo ac maent yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion y Gwasanaethau Cymdeithasol.

- **Prynu ac Adnewyddu Tai**
  Mae'r ffocws yn 2025/26 ar adnewyddu eiddo a brynwyd yn flaenorol, ac mae disgwyl y bydd y gyllideb o £2,370k yn cyllido 15 uned i'w hychwanegu at y stoc y gellir eu gosod yn ystod y flwyddyn. Yn ychwanegol at hyn, mae pum eiddo presennol yn cael eu prynu ym Modedern a Llanfairpwll. Mae'r eiddo yma'n bodloni meini prawf penodol (maint yr aelwyd, cynllun sy'n addas ar gyfer tenantiaid ag anghenion penodol, ac ati) ac fe'u prynwyd fel rhan o strategaeth wedi'i thargedu i wella cyfansoddiad y stoc dai.

- **Prosiectau Newydd yn y Camau Cychwynnol a Chyn-cynllunio**
  Mae nifer o brosiectau yn eu camau cychwynnol, sef datblygiadau ym Mhlas Penlan yn Llangefni, Maes Mona yn Amlwch, ac yn Safle Ysgol Corn Hir yn Llangefni. Mae'r prosiectau sydd ar y camau cyn-cynllunio yn cynnwys datblygu ac ailddatblygu ym Maes William Williams yn Amlwch, Tan y Foel yn Llannerch-y-medd, cyn safle Ysgol y Parc yng Nghaergybi, a Phlastai Pencraig yn Llangefni. Mae cyllideb o £300k wedi'i dyrannu yn 2025/26 ar gyfer gwaith sy'n ymwneud ag ystyried potensial y safleoedd hyn ar gyfer prosiect datblygu yn y dyfodol.

  Bydd pob prosiect newydd yn cael ei asesu'n ariannol a'i gymeradwyo yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor.

**10. Balans y CRT**

**10.1** Balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT oedd £7,976k. Roedd y gyllideb yn caniatáu ar gyfer defnyddio £6,820k o'r balans hwn, gan adael yr isafswm balans cronfa wrth gefn o £1,155k, fel y nodir yng Nghynllun Busnes y CRT. Mae hyn yn gyfystyr â 5% o'r gyllideb incwm rhentu anheddau ar gyfer 2025/26.

**11. Benthyciadau'r CRT**

**11.1** Y diffyg refeniw / cyfalaf a gyllidwyd ar gyfer eleni yw £9,747k. Y bwriad oedd ei gyllido gan £6,820k o gronfa wrth gefn y CRT a £2,927k drwy fenthyca allanol. Rhagwelir y bydd y diffyg bellach yn £9,558k, yn bennaf o ganlyniad i danwariant y gyllideb refeniw. Bydd hyn yn cael ei gyllido drwy £6,820k o gronfa wrth gefn y CRT a £2,738k drwy fenthyca allanol.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol):** | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Mae'r adroddiad at ddibenion monitro yn unig ac fe'i defnyddir, gydag adroddiadau eraill, i lunio cynllun busnes a chyllideb flynyddol y CRT. Bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| **3** | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Amherthnasol |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Mae'r Gwasanaethau Tai yn ymgynghori'n rheolaidd â'i denantiaid ac mae canlyniadau'r ymgynghoriadau hynny'n cael eu bwydo i'r broses gynllunio busnes ac yna i'r broses o osod y gyllideb flynyddol. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.. | Amherthnasol |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei chael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol. | Amherthnasol |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | Amherthnasol |
| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad. Ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad |
| **2** | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA ac ystyriwyd ac ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad. |
| **4** | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| **5** | Eiddo | Amherthnasol |
| **6** | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| **7** | Caffael | Amherthnasol |
| **8** | Sgriwtini | Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid yn cael ei hysbysu am ganlyniadau adroddiadau monitro chwarterol y CRT. |
| **9** | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A – Gwariant a rhagolygon Refeniw hyd at ddiwedd chwarter 1 2025/26
- Atodiad B – Gwariant a rhagolygon Cyfalaf hyd at ddiwedd chwarter 1 2025/26
- Atodiad C – Cynlluniau cyfalaf adeiladu tai newydd a rhagolygon hyd at ddiwedd chwarter 1 2025/26

**Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad i gael rhagor o wybodaeth):**

- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2025-2054 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2025)

**ATODIAD A**

**CYLLIDEB CYFRIF REFENIW TAI 2025/26**

| | Cyllideb Gyfredol 2025/26 £ | Cyllideb a Broffilwyd hyd at Ch1 £ | Gwariant / (Incwm) hyd at Ch1 £ | Amrywiant hyd at Ch1 £ | Rhagolwg diwedd blwyddyn ar Ch1 £ | Amrywiant ar ddiwedd y flwyddyn £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | | |
| Incwm Rhent | (23,398,090) | (6,411,074) | (6,279,528) | 131,546 | (23,398,090) | - |
| Taliadau Gwasanaeth | (247,090) | (67,702) | (69,411) | (1,709) | (248,799) | (1,709) |
| Incwm Arall | (270,950) | (40,086) | (40,475) | (389) | (278,917) | (7,967) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(23,916,130)** | **(6,518,862)** | **(6,389,414)** | **129,448** | **(23,925,807)** | **(9,677)** |
| **Gwariant** | | | | | | |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw | 4,317,650 | 1,079,428 | 1,430,786 | 351,358 | 4,317,650 | - |
| Gwaith Trwsio ymatebol | | | *536,025* | | *3,285,980* | - |
| Gwaith a gynlluniwyd a chylchol | | | *45,989* | | *177,500* | - |
| Anheddau gwag | | | *848,772* | | *854,170* | - |
| Gwasanaethau a rennir a rhai yr ailgodir tâl amdanynt | 961,950 | 397,700 | 362,832 | (34,868) | 972,005 | 10,055 |
| Costau gweithwyr gweithredol | 2,391,820 | 597,209 | 501,950 | (95,259) | 2,326,977 | (64,843) |
| Gorbenion a gwariant arall | 567,990 | 132,523 | 126,073 | (6,450) | 563,477 | (4,513) |
| **Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **8,239,410** | **2,206,860** | **2,421,641** | **214,781** | **8,180,108** | **(59,302)** |
| **Goruchwylio a rheoli** | | | | | | |
| Gweinyddu Rhenti | 501,530 | 125,213 | 114,754 | (10,459) | 503,189 | 1,659 |
| Cyfranogiad tenantiaid a chefnogaeth | 914,300 | 225,108 | 196,489 | (28,619) | 905,195 | (9,105) |
| Rheoli Stadau | 768,290 | 191,855 | 157,587 | (34,268) | 754,901 | (13,389) |
| Datblygu | 260,190 | 64,997 | 64,642 | (355) | 260,222 | 32 |
| Staff rheoli a thechnegol | 1,821,650 | 441,716 | 399,540 | (42,176) | 1,749,821 | (71,829) |
| Cefnogaeth busnes | 1,632,820 | 382,371 | 336,503 | (45,868) | 1,605,680 | (27,140) |
| **Cyfanswm goruchwylio a rheoli** | **5,898,780** | **1,431,260** | **1,269,514** | **(161,746)** | **5,779,009** | **(119,771)** |
| **Cyfanswm Gweithrediadau** | **(9,777,940)** | **(2,880,742)** | **(2,698,258)** | **182,484** | **(9,966,689)** | **(188,749)** |

| | Cyllideb Gyfredol 2025/26<br>£ | Cyllideb a Broffilwyd hyd at Ch1<br>£ | Gwariant / (Incwm) hyd at Ch1<br>£ | Amrywiant hyd at Ch1<br>£ | Rhagolwg diwedd blwyddyn ar Ch1<br>£ | Amrywiant ar ddiwedd y flwyddyn<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau diwedd blwyddyn** | | | | | | |
| Costau cyllido a darpariaeth ar gyfer drwg ddyledion | 2,618,800 | - | (5,080) | (5,080) | 2,618,800 | - |
| Ailgodi tâl o'r gwasanaethau canolog | 842,820 | - | - | - | 842,820 | - |
| Ailgodi tâl o'r gwasanaethau tai | 25,130 | - | - | - | 25,130 | - |
| **Cyfanswm addasiadau diwedd blwyddyn** | **3,486,750** | **-** | **(5,080)** | **(5,080)** | **3,486,750** | **-** |
| **Cyfanswm refeniw (gwarged) / diffyg** | **(6,291,190)** | **(2,880,742)** | **(2,703,338)** | **177,404** | **(6,479,939)** | **(188,749)** |
| **Cyfrif gwariant cyfalaf** | | | | | | |
| Gwariant cyfalaf | 23,028,814 | - | 5,055,705 | - | 23,028,814 | - |
| Cyllid grant derbyniadwy | (6,990,383) | - | (6,990,383) | - | (6,990,383) | - |
| Cyfraniadau eraill | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm cyfalaf (gwarged) / diffyg** | **16,038,431** | **-** | **(1,934,678)** | **-** | **16,038,431** | **-** |
| **Cyllidir diffyg cyfalaf gan** | | | | | | |
| Gwarged refeniw | (6,291,190) | - | - | - | (6,479,939) | (188,749) |
| Cronfa wrth gefn CRT | (6,820,303) | - | - | - | (6,820,303) | - |
| Benthyca digefnogaeth | (2,926,938) | - | - | - | (2,738,189) | 188,749 |
| | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm cyllido gwariant cyfalaf** | **(16,038,431)** | **-** | **-** | **-** | **(16,038,431)** | **-** |
| | - | - | - | - | - | - |
| Balans agoriadol y CRT | (7,975,679) | - | - | - | (7,975,679) | - |
| (Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT | 6,820,303 | - | - | - | 6,820,303 | - |
| **Balans cau Cronfa wrth Gefn y CRT** | **(1,155,376)** | **-** | **-** | **-** | **(1,155,376)** | **-** |

**ATODIAD B**

## CYLLIDEB CYFALAF CRT 2025/26

| | Cyllideb Flynyddol 2025/26 | Gwariant Ch 1 | Rhagolwg diwedd Blwyddyn | Amrywiant diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Contract Gwresi Canolog | 200,000 | 89,617 | 200,000 | - |
| Contract Cynnal a Chadw a gynlluniwyd | 3,000,000 | 302,304 | 3,000,000 | - |
| Gwella Perfformiad Ynni | 3,300,000 | 579,101 | 3,300,000 | - |
| Gwaith Amgylcheddol | 500,000 | - | 500,000 | - |
| Prynu Eiddo Cyfredol a Datblygu Eiddo Newydd | 9,395,814 | 2,277,275 | 9,395,814 | - |
| Addasiadau Sector Gyhoeddus | 500,000 | 86,936 | 500,000 | - |
| Risg Tân | 500,000 | 128,388 | 500,000 | - |
| SATC | 1,483,000 | 59,143 | 1,483,000 | - |
| Rhaglen Amnewid Ceginau | 3,500,000 | 1,474,810 | 3,500,000 | - |
| Adnewyddu Fflyd | 650,000 | 58,130 | 650,000 | - |
| **Cyfanswm** | **23,028,814** | **5,055,705** | **23,028,814** | **-** |

**ATODIAD C**

## CYLLIDEB DATBLYGIADAU NEWYDD 2025/26

| Cynlluniau / Prosiectau | Nifer yr unedau ychwanegol | Cyllideb 2025/26 | Gwariant Ch 1 | Rhagolwg diwedd blwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ |
| Anheddau newydd eu hadeiladu | | | | |
| Safle Hen Ysgol Niwbwrch | 14 | 1,427,530 | 311,410 | 1,427,530 |
| Cae Braenar, Caergybi | 23 | 1,535,707 | 292,523 | 1,535,707 |
| Parc y Coed, Llangefni, Cam 2 | 2 | 293,200 | - | 293,200 |
| Stad y Bryn, Llanfaethlu | 10 | 562,736 | 278,381 | 562,736 |
| Plas Alltran, Caergybi | 4 | - | - | - |
| | | | | |
| Prynu eiddo cyfreddol | | | | |
| Prynu | 5 | 1,438,356 | 657,030 | 1,438,356 |
| Adnewyddu | 15 | 2,370,000 | 479,157 | 2,370,000 |
| | | | | |
| Cydweithrediad â Gwasanaethau Cymdeithasol | 4 | 600,648 | 222,983 | 600,648 |
| Gofal Ychwanegol, Aethwy | 73 | 867,637 | 26,719 | 867,637 |
| | | | | |
| Prosiectau yn y Cyfnod Cyn Cynllunio | | 300,000 | 9,072 | 300,000 |
| **Cyfanswm** | **150** | **9,395,814** | **2,277,275** | **9,395,814** |